**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
—
**Standards of Conduct Committee**

Dyddiad | Date: 14 Hydref 2022

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddSafonau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddStandards@senedd.wales
senedd.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc

Drwy e-bost

Pwnc | Subject: Grwpiau Trawsbleidiol

Annwyl Manon,

Yn ei gyfarfod diwethaf, trafododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yr ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad ar y Grwpiau Trawsbleidiol, a hynny fel rhan o'n hymchwiliad i lobïo. Yn ei ymateb, nododd y Grŵp Llafur:

"O ran y rheolau ariannol, gall y ffaith nad yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu hystyried yn rhan ffurfiol o'n gwaith fel Aelodau hefyd achosi problemau. Mae'r rheol hon yn golygu na all Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio neu wariant arall sy'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol o'u lwfansau. O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl y bydd Aelodau'n cael eu rhwystro rhag ymgymryd yn llawn â rhywfaint o waith Grwpiau Trawsbleidiol, megis teithio i ymweliad allanol a drefnwyd gan y grŵp a allai olygu teithio sylweddol neu aros dros nos."

Mynegodd y Grŵp bryder ynghylch cael llai o dryloywder, ac ynghylch y posibilrwydd y byddai enw da Aelodau o'r Senedd a Chomisiwn y Senedd yn destun risg pe bai'r grwpiau trawsbleidiol yn dod yn ddibynnol ar gyllid allanol ar gyfer cynnal ymweliadau neu arosiadau dros nos.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch yn y lle cyntaf i ganfod pa ystyriaeth, os o gwbl, sy'n cael ei rhoi i system lle gall Aelodau hawlio costau teithio a chostau eraill sy'n deillio o fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau a gynhelir gan y grwpiau trawsbleidiol.

Yn gywir,

V. Howells

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.